COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

**Bwrdd y Coleg, 25 Mawrth 2026 (10:00 – 12:30), Caerfyrddin**

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| **Aelodau'r Bwrdd:** | Dr Aled Eirug (Cadeirydd) |
| | Ann Beynon |
| | Nia Elias |
| | John Hayes |
| | Yr Athro Anwen Jones |
| | Yr Athro Pedr ap Llwyd |
| | Angharad Roberts |
| | Llinos Roberts |
| | Yr Athro Enlli Thomas |
| **Sylwedyddion:** | Alan Jones (Llywodraeth Cymru) |
| | Deio Owen (Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru) |
| **Swyddogion:** | Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr) |
| | Gwenllïan Griffiths (Cyfarwyddwr Materion Allanol) |
| | Dr Dylan Phillips (Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol ac Ysgrifennydd) |
| | Dr Dafydd Trystan (Cyfarwyddwr Addysg Drydyddol a Chofrestrydd) |
| | Nia Brown (Swyddog Llywodraethiant) |
| | Mari Fflur (Uwch Reolwr Polisi) |
| | Ffion Hughes (Uwch Reolwr Addysg Uwch) |

| | |
|---|---|
| | Suzanne Lewis (Uwch Reolwr Gwasanaethau Corfforaethol)<br>Dr Lowri Morgans (Uwch Reolwr Addysg Bellach)<br>Rebecca Williams (Uwch Reolwr Sgiliau Iaith a Chynllunio Gweithlu) |
| **Arsylwi:** | Fflur Jones (Darwin Gray)<br>Heledd Ainsworth (Darwin Gray) |
| **Ymddiheuriadau:** | Rhys Evans<br>Meri Huws |

**Cofnodion Cyfarfod 25 Mawrth 2026**

## 1. Eitem 1 – Croeso, ymddiheuriadau a materion rhagarweiniol

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Estynnwyd croeso i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod. | | |
| 1.2 | Croesawyd Fflur Jones a Heledd Ainsworth (Darwin Gray) a oedd yn arsylwi fel rhan o'r adolygiad llywodraethiant. | | |
| 1.3 | Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1.4 | Adroddwyd mai dyma fyddai cyfarfod olaf Llinos Roberts a'r Athro Pedr ap Llwyd wedi iddynt wasanaethu fel aelodau Bwrdd am ddau dymor. Bu Llinos yn Is-Gadeirydd doeth a gamodd i'r adwy adeg marwolaeth Gareth Pierce. Cydnabyddir arweiniad cadarn Pedr fel cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol. Adroddwyd hefyd bod Rhys Evans yn sefyll lawr o'r Bwrdd ac yn gorffen heddiw. Bu Rhys yn aelod ers 2021, ac yn fwy diweddar yn gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg. Diolchwyd i'r tri ohonynt am eu gwasanaeth gwerthfawr. | | |

## 2. Eitem 2 – Datganiadau o ddiddordeb

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 2.1 | Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir iddynt nodi unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau. | | |

## 3. Eitem 3 – Cofnodion 19 Tachwedd 2025

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 3.1 | Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2025. | | |

## 4. Eitem 4 – Materion yn codi

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 4.1 | Eitem 4.3 – Diweddariad ar y Cynllun Strategol i'r Bwrdd dan Eitem 7. | | |
| 4.2 | Eitem 4.4 – Amlinelliad o sefyllfaoedd cyllid posib yn dilyn Etholiadau'r Senedd dan Eitem 14ii. | | |
| 4.3 | Eitemau 7.6 a 7.7 – Adolygiad llywodraethiant.<br>Dirprwywyd y gwaith o lunio cylch gorchwyl a manyleb ar gyfer yr adolygiad llywodraethiant i'r Cadeirydd gyda chymorth cadeiryddion is-bwyllgorau'r Bwrdd, a chwblhawyd hynny cyn y Nadolig. Trafodwyd y drafft yng nghyfarfod y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant ar 21 Ionawr. Rhannwyd copi hefyd gyda swyddogion y Llywodraeth, cyn ei anfon at aelodau'r Bwrdd ar gyfer eu cymeradwyaeth. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Hysbysebwyd ar wefan Gwerthwch i Gymru a Darwin Gray sydd wedi ymgymryd â'r gwaith. Mae'r gwaith eisoes wedi dechrau gan gynnwys arsylwi cyfarfod y Bwrdd heddiw a'i bwyllgorau yn y misoedd nesaf. Bydd yr adolygwyr yn cwrdd â holl aelodau'r Bwrdd fel rhan o'r broses. Bwriedir cwblhau'r gwaith a chyflwyno adroddiad i'r Bwrdd yng nghyfarfod 24 Mehefin 2026. | Adroddiad adolygiad llywodraethiant i'r Bwrdd | 24 Mehefin 2026 |

**5. Eitem 5 - Adroddiad y Prif Weithredwr**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 5.1 | Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Prif Weithredwr ar weithgareddau diweddar a nodwyd y diweddariadau yn yr adroddiad. | | |
| 5.2 | **Cynulliad 24 Mawrth 2026**<br>Adroddwyd ar y Cynulliad a gynhaliwyd y noson gynt fel cychwyn dathliadau 15 mlynedd y Coleg. | | |
| 5.3 | **Ymgynghoriad y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch ar heriau'n wynebu'r sector drydyddol**<br>Adroddwyd bod y Coleg wedi cyfrannu'n llawn at ymgynghoriad y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch ar yr heriau sy'n wynebu'r sector trydyddol. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Bydd y Coleg yn cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig yn seiliedig ar y cyngor cychwynnol i Medr a'r maniffesto fel a gytunwyd yn y Bwrdd. | | |
| 5.4 | **Cyllideb y Coleg a Llywodraeth Cymru**<br>Adroddwyd bod Llythyr Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026/27 wedi dod i law (Gweler Eitem 13). | | |
| 5.5 | **Medr**<br>Adroddwyd bod y Coleg wedi caffael cyngor Gwion Lewis *CB* o ran statws cyfreithiol Amod y Gymraeg ac ymhelaethwyd ar ei sylwadau am ffurf bresennol yr Amod a'r posibilrwydd o greu cyswllt maes o law rhwng Deddf Addysg Gymraeg ac Ymchwil 2023 a Deddf y Gymraeg ac Addysg 2025.<br>Adroddwyd bod rhannau o'r amod wedi eu cryfhau ond nad yw ffurf derfynol yr Amod yn adlewyrchu holl awgrymiadau'r Coleg yn y cyngor ac yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, ond bod Medr wedi datgan bod rheoleiddio yn broses esblygol. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Bydd y Coleg yn cyflwyno cyngor ffurfiol ar (i) y Cynllun Cenedlaethol, a (ii) materion cyllido yn ddiweddarach yn y flwyddyn.<br><br>Mae'r Coleg a Medr yn awyddus i sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n gweithredu cyn gynted â phosib ar sail ei fwriad i sefydlu ffrwd gwaith i edrych ar sut gellid cymhwyso'r Cod Disgrifio Gallu yn y Gymraeg i'r sector trydyddol. | | |
| 5.6 | **Addysg Uwch**<br><br>Adroddwyd bod heriau cyllidebol y prifysgolion yn parhau. Er mwyn darparu sicrwydd tymor byr bwriedir cynnal y trefniadau grantiau presennol yn 2026/27 a 2027/28 oni bai bod newidiadau arwyddocaol yn dilyn etholiadau'r Senedd. | | |
| 5.7 | **Addysg Bellach a Phrentisiaethau**<br><br>Adroddwyd ar y camau i weithredu penderfyniad y Bwrdd o ran codi uchelgais a rhoi pwyslais ar brofiadau cyfrwng Cymraeg dysgwyr a phrentisiaid.<br><br>Adroddodd y Prif Weithredwr ar gyfarfod penaethiaid ColegauCymru ar 4-5 Mawrth. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Adroddwyd ar yr heriau a’r trafodaethau ym maes prentisiaethau. | | |
| 5.8 | **Yr Athrofa**<br>Estynnwyd llongyfarchiadau i Llinos Roberts ar ei phenodi’n Gadeirydd Bwrdd yr Athrofa gan edrych ymlaen at gydweithio yn y dyfodol. | | |
| 5.9 | **Ymgysylltu**<br>Rhoddodd y Cyfarwyddwr Materion Allanol ddiweddariad ar y gwaith ymgysylltu gan gyfeirio at y briff a ddarparwyd i aelodau'r Bwrdd ar ymrwymiadau perthnasol y pleidiau neu mewn datganiadau a gyhoeddwyd hyd yn hyn. | | |

## 6. Eitem 6 – Materion y Cadeirydd

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 6.1 | Adroddodd y Cadeirydd ar gyfarfodydd diweddar y bu’n rhan ohonynt gyda’r Prif Weithredwr gan gynnwys cwrdd â Gweinidogion Llywodraeth Cymru a Chadeirydd a Phrif Weithredwr Medr. | | |
| 6.2 | Adroddodd bod yr adolygiad llywodraethiant ar waith. | | |

## 7. Eitem 7 – Cynllun Strategol 2026-30

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 7.1 | Rhoddwyd diweddariad ar baratoi Cynllun Strategol 2026-30. | | |
| 7.2 | Diolchwyd i'r aelodau am eu mewnbwn wrth drafod egwyddorion y cynllun yn y gweithdy a gynhaliwyd ar 26 Chwefror. Adroddwyd bod y casgliadau yn gyson â thrafodaethau mewnol. | | |
| 7.3 | Cyflwynwyd strwythur ar gyfer y Cynllun oedd yn cynnwys:<br>i. Prif feysydd strategol i'w cynnwys yn y cynllun:<br>• Darpariaeth drydyddol<br>• Gweithlu addysg drydyddol<br>• Taith a phrofiad dysgwyr<br>ii. Dulliau gweithredu:<br>• Cynllunio strategol<br>• Cyllido a sbarduno<br>• Hyrwyddo a newid ymddygiad<br>• Dylanwadu a pholisi<br>iii. Seilwaith ar gyfer cyflawni'r gwaith<br>iv. Mesuryddion | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7.4 | Nododd Alan Jones, Is-Adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru, y rhagwelir y bydd Llywodraeth newydd yn adolygu strategaeth Cymraeg 2050 ac yn debygol o gynnwys cynlluniau ar gyfer gweithleoedd a gweithluoedd. | | |
| 7.5 | Nodwyd bod gweledigaeth y Coleg, a fydd yn sail i'r Cynllun Strategol, wedi ei amlinellu'n llawn yn y cyngor cychwynnol a gyflwynwyd i Medr ym Medi 2024. Gwahoddwyd aelodau'r Bwrdd i barhau i gyfrannu at y broses o ddatblygu'r Cynllun. | Cynllun drafft i'w gylchredeg i aelodau'r Bwrdd bythefnos cyn y cyfarfod ar 24 Mehefin. | Pythefnos cyn 24 Mehefin 2026 |
| 7.6 | Yn dilyn trafodaeth cytunwyd ar yr egwyddorion i'w cynnwys yn y Cynllun Strategol drafft i'w cyflwyno i'r Bwrdd ar 24 Mehefin cyn bod cyfnod o ymgynghori yn ystod misoedd yr haf. | Cynllun Strategol drafft i'r Bwrdd | 24 Mehefin 2026 |
| | *Ar y pwynt hwn ymadawodd Dr Lowri Morgans* | | |

## 8. Eitem 8 – Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 8.1 | **Cofnodion (Eitem 8i)**<br>Nodwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2026.<br>Adroddodd yr Ysgrifennydd ar:<br>• y drafodaeth i gytuno ar fanyleb yr adolygiad llywodraethiant<br>• ddiweddariad ar aelodaeth<br>• ddiweddariad ar y Cynllun Llywio<br>• yr holiadur gwerthuso a gylchredir cyn y Pasg<br>• drafodaeth ar fanteision a buddiannau gallu cynnig tâl i gadeiryddion y Coleg a chynlluniau i gyflwyno cais i'r Comisiwn Elusennau am eu caniatâd.<br>Derbyniwyd yr adroddiad. | | |
| 8.2 | **Dogfen Llywodraethiant (Eitem 8ii)**<br>Cyflwynwyd Dogfen Llywodraethiant y Coleg. Nodwyd sylwadau'r Bwrdd ar rai cymalau i'w hystyried gan yr adolygiad llywodraethiant. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Derbyniwyd y Ddogfen Llywodraethiant. | | |
| 8.3 | **Aelodaeth y Bwrdd (Eitem 8iii)**<br>Nodwyd y cadarnhawyd Yusuf Ibrahim fel aelod newydd o'r Bwrdd o 1 Ebrill 2026 drwy ohebiaeth.<br>Cymeradwywyd y penodiad. | | |
| 8.4 | **Diweddariadau eraill o ran aelodaeth y Bwrdd**<br>Adroddwyd ar ddiwedd tymor Llinos Roberts a'r Athro Pedr ap Llwyd a bod Rhys Evans yn sefyll lawr o'r Bwrdd.<br>Bydd cyfarfodydd diwedd tymor yn cael eu cynnal rhyngddynt a'r Cadeirydd.<br>Adroddwyd hefyd y bydd ail dymor Nia Elias yn dod i ben ym mis Tachwedd 2026.<br>Adroddwyd y bydd trafodaeth yn y cyfarfod nesaf am gynlluniau i hysbysebu am aelodau newydd yn ystod y flwyddyn. | | |
| 8.5 | **Cadeiryddion pwyllgorau**<br>Adroddwyd bod yr Athro Anwen Jones wedi cadeirio ei chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar 4 Mawrth 2026. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Adroddwyd y bydd Ann Beynon yn cadeirio cyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Risg ar 20 Mai 2026 cyn cadarnhau trefniadau hir dymor. | | |
| 8.6 | **Penodi Is-Gadeirydd**<br>Yn dilyn enwebiadau a phleidlais drwy ohebiaeth gan aelodau'r Bwrdd cadarnhawyd penodi Ann Beynon fel Is-Gadeirydd newydd y Bwrdd o 1 Ebrill 2026. | | |
| 8.7 | **Cadeirydd y Coleg**<br>Adroddwyd ar y bwriad i hysbysebu am Gadeirydd newydd i'r Coleg ym mis Mai i olynu Dr Aled Eirug ar ddiwedd ei dymor fydd yn dod i ben 31 Awst 2026. | | |

## 9. Eitem 9 – Pwyllgor Archwilio a Risg

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 9.1 | **Cofnodion (Eitem 9i)**<br>Nodwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2026.<br>Adroddodd yr Ysgrifennydd (yn absenoldeb Rhys Evans, cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg) ar: | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • raglen archwilio allanol 2025/26<br>• adroddiad cydymffurfio<br>• adroddiadau'r archwilwyr mewnol ar reoli risg a rheolaethau lliniarol, a oedd yn cynnig sicrwydd sylweddol; dilyniant; a rhaglen waith 2026/27<br>• y gofrestr risg strategol<br>• polisi deallusrwydd artiffisial<br>• trafodaeth ar risgiau a mesurau lliniaru pe cynigid tâl i gadeiryddion y Coleg, a chynlluniau i gyflwyno cais i'r Comisiwn Elusennau am eu caniatâd<br><br>Derbyniwyd yr adroddiad. | | |
| 9.2 | **Y Gofrestr Risg Strategol (Eitem 9ii)**<br><br>Nodwyd cofrestr risg strategol y Coleg, er gwybodaeth. | | |
| 9.3 | **Polisi a Gweithdrefn Rheoli Risg (Eitem 9iii)**<br><br>Adroddwyd bod yr archwilwyr mewnol wedi argymell mai'r Bwrdd ddylai fod yn gyfrifol am osod lefelau o oddefgarwch risg ac archwaeth, ac nid y Pwyllgor Archwilio a Risg. Cyflwynwyd y polisi a gweithdrefn rheoli risg diwygiedig sydd | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | nawr yn nodi'r cyfrifoldeb o 'osod y lefelau o oddefgarwch risg ac archwaeth' i'r Bwrdd.<br>Cymeradwywyd y diwygiadau a derbyniwyd y Polisi a'r gweithdrefn Rheoli Risg. | | |
| 9.4 | **Datganiad Archwaeth Risg**<br>**(Eitem 9iv)**<br>Nodwyd y Datganiad Archwaeth Risg. | | |
| 9.5 | **Hyfforddiant**<br>Wrth drafod cyd-ddealltwriaeth cyfrifoldebau'r Bwrdd ar archwaeth a rheoli risg argymhellwyd cynnal hyfforddiant i aelodau'r Bwrdd. | Trefnu hyfforddiant rheoli ac archwaeth risg | 2026/27 |

**10. Eitem 10 – Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 10.1 | **Cofnodion (Eitem 10)**<br>Nodwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2026.<br>Adroddodd yr Athro Anwen Jones, cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol: | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • eu bod wedi ffarwelio gyda'r Athro Pedr ap Llwyd a Llinos Roberts<br>• bod Nia Edwards-Behi wedi ymuno fel sylwedydd o'r Cynllun Llywio<br>• eu bod wedi derbyn diweddariad ar gyllideb a chyfrifon rheoli 2025/26<br>• wedi trafod cyllideb ddrafft 2026/27<br>• y bwriad i gynnal adolygiad o'r buddsoddiadau ym mis Medi 2026<br>• y cafwyd adolygiad blynyddol ar gyflogau'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol<br><br>Derbyniwyd yr adroddiad. | | |

**11. Eitem 11 – Bwrdd Academaidd**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 11.1 | **Cofnodion (Eitem 11)**<br><br>Nodwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2026.<br><br>Adroddodd yr Athro Enlli Thomas, cadeirydd y Bwrdd Academaidd: | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • ddiweddariad gan y Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi nad yw polisïau mewnol rhai prifysgolion yn rhoi ystyriaeth deg i ymchwil cyfrwng Cymraeg<br>• adroddiad gan Fforwm Llais y Dysgwyr<br>• cyflwyniad ar Ddeallusrwydd Artiffisial<br><br>Derbyniwyd yr adroddiad. | | |
| 11.2 | Nododd Alan Jones, Is-Adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru, bod swyddogion yn cwrdd ag UCAS fis Ebrill i godi materion a godwyd gan y Coleg mewn briff i Weinidogion. | | |

## 12. Eitem 12 – Bwrdd Strategol Ôl-16

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 12.1 | **Cofnodion (Eitem 12)**<br><br>Nodwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Strategol Ôl-16 a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2026.<br><br>Adroddodd y Prif Weithredwr (yn absenoldeb Meri Huws, cadeirydd y Bwrdd Strategol Ôl-16):<br>• bod Yusuf Ibrahim wedi cadeirio'r cyfarfod<br>• ar gyflwyniad gan lysgennad | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • ar y trafodaethau ar godi uchelgais a'r heriau<br>Derbyniwyd yr adroddiad. | | |

**13. Eitem 13– Llythyr Grant Llywodraeth Cymru**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 13.1 | Cyflwynwyd Llythyr Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026/27. | | |
| 13.2 | Adroddodd yr Ysgrifennydd ar gynnydd o 1% i'r grant craidd o'r flwyddyn flaenorol.<br>Adroddwyd bod ychydig o newid i drefniadau talu'r grant fydd o hyn allan wedi'i seilio ar broffil gwariant arfaethedig y Coleg yn hytrach na rhan-daliadau misol hafal. | | |
| 13.3 | Nodwyd y Llythyr Grant. | | |
| | *Ar y pwynt hwn ymunodd Deio Owen yn y cyfarfod* | | |

### 14. Eitem 14 – Cyllideb y Coleg 2026/27

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 14.1 | **Cyllideb ddrafft ar gyfer 2026/27 (Eitem 14i)**<br>Cyflwynwyd cyllideb ddrafft y Coleg ar gyfer 2026/27 gan yr Ysgrifennydd.<br>Adroddwyd bod 76% o gyllideb y Coleg yn parhau i gael ei wario ar weithgareddau mewn prifysgolion, colegau a sefydliadau addysgol eraill.<br>Adroddwyd gan fod y Llythyr Grant wedi cyrraedd ar ôl cylchredeg y gyllideb ddrafft bod y ffigwr incwm £224 yn is nag a ragwelwyd.<br>Yn dilyn trafodaeth derbyniwyd y gyllideb ddrafft. | | |
| 14.2 | **Senarios cyllido posib yn dilyn Etholiadau'r Senedd (Eitem 14ii)**<br>Cyflwynwyd senarios cyllido posib yn dilyn Etholiadau'r Senedd gan yr Ysgrifennydd.<br>Yn dilyn trafodaeth nodwyd y papur. | | |
| 14.3 | **Grantiau i ddarparwyr addysg drydyddol (Eitem14iii)** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cyflwynwyd papur yn manylu ar restr o grantiau i ddarparwyr addysg drydyddol ar gyfer 2026/27 gan y Cyfarwyddwr Addysg Drydyddol.<br>Cymeradwywyd y papur. | | |

**15. Eitem 15 – Materion cyfansoddiadol**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 15.1 | **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (Llys) y Coleg**<br>Rhoddodd yr Ysgrifennydd adroddiad llafar ar gyfarfod blynyddol y Coleg a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2026. | | |
| 15.2 | Adroddwyd y derbyniodd y Llys Adroddiad Blynyddol 2024/25; a chyfrifon blynyddol y Coleg hyd at 31 Mawrth 2025 sydd wedi'u ffeilio gyda Thŷ'r Cwmnïau a'r Comisiwn Elusennau. | | |
| 15.3 | Adroddwyd bod cynigion y Bwrdd: ar gyfer (i) mabwysiadu Erthyglau Cymdeithasu newydd, a (ii) rhoi awdurdod i'r Bwrdd allu talu cadeiryddion y Coleg (y ddau gynnig yn amodol ar dderbyn caniatâd y Comisiwn Elusennau) wedi'u cymeradwyo. | | |

## 16. Eitem 16 - Unrhyw fater arall

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 16.1 | Ar drothwy cyfnod o absenoldeb, cyflwynodd y Cofrestrydd ei ddiolch i aelodau'r Bwrdd, y Prif Weithredwr a'r swyddogion am eu cefnogaeth dros yr 19 mlynedd diwethaf.<br>Mynegodd y Prif Weithredwr ei werthfawrogiad i'r Cofrestrydd am ei gyfraniadau allweddol hyd yma i ddatblygiad y Coleg. | | |

## 17. Eitem 17 – Dyddiadau cyfarfodydd nesaf

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 17.1 | **Dyddiadau cyfarfodydd nesaf**<br>Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:<br>• 24 Mehefin 2026, Caerdydd<br>• 18 Tachwedd 2026, Caerdydd<br>• 17 Mawrth 2027, Abertawe<br>• 30 Mehefin 2027, Aberystwyth | | |

## 18. Eitem 18 – CAEËDIG

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| | *Ar y pwynt hwn ymadawodd y sylwedyddion.* | | |
| 18.1 | Derbyniwyd cofnodion caeëdig y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2025. | | |